# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI

## 7FED MEDI 2017

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** L.D. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Staines, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd

Ystafell 65 - Neuadd Y Sir, Caerfyrddin – 10:10yb - 10.20yb

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

### 2. AMLINELLU CYNLLUN AR GYFER ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD CYNLLUNIAU GOSOD LLEOL

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn darparu cynllun i adolygu effeithiolrwydd Cynlluniau Gosod Lleol ac a oedd yn cynnwys rhestr o'r polisïau gosod lleol sydd ar waith ar hyn o bryd, y prif reswm dros eu cyflwyno ac amserlen arfaethedig ar gyfer eu hadolygu.

Esboniodd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, yn sgil y canllawiau a luniwyd yn 2016 fel rhan o Ddeddf Tai (Cymru), ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu eu polisïau gosod lleol yn rheolaidd er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion y canllawiau.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai fod yn rhaid i awdurdodau lleol fod yn fodlon bod ganddynt dystiolaeth glir o'r angen cyn cyflwyno polisïau gosod lleol.

Dywedodd y Pennaeth Tai wrth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod wyth polisi gosod lleol wedi'u mabwysiadu ers 2011 a bod angen eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn briodol. Byddai'r adolygiad yn cynnwys mesur effeithiolrwydd pob polisi a fyddai'n golygu ymgynghori'n briodol â phartneriaid, tenantiaid ac aelodau etholedig, ac felly roedd angen dull gweithredu cynlluniedig.

Yn ogystal, mae'r polisi ynghylch ward Ty-isa yn cael ei adolygu ar hyn o bryd ar y sail ei fod wedi bodoli hiraf a'i fod yn cynnwys y nifer mwyaf o eiddo. Byddai'r gwaith yn darparu gwybodaeth ar gyfer ceisiadau a dderbynnir gan aelodau lleol i bolisïau gosod lleol gael eu hystyried mewn perthynas â wardiau Glanymôr a Llwnhendy.

Nododd Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y byddai tystiolaeth ynghylch y meini prawf penodedig yn seiliedig ar ddata o'r ystod eang o ffynonellau sydd ar gael ac y byddai adroddiadau ar yr adolygiadau yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd yr Aelod priodol o'r Bwrdd Gweithredol.

Argymhellwyd bod y polisïau gosod lleol presennol yn cael eu hadolygu yn unol â'r rhaglen a amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**2.1 Derbyn yr adroddiad a oedd yn amlinellu cynllun ar gyfer adolygu effeithiolrwydd Cynlluniau Gosod Lleol;**

**2.2 Cymeradwyo'r rhaglen adolygu mewn perthynas â Pholisïau Gosod Lleol presennol, fel yr amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## 3. LLOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 MAWRTH, 2017 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2017 yn gofnod cywir.**

________________________________ ___________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**